Prynu ar y we

gemwaith ffug

At: ymholiad@gemaugems.co.uk

Cc:

Pwnc: gemwaith ffug

Oddi wrth: samsmith2@gwecym.org

Bore da.

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl prynu watsh o'r we – o wefan oedd yn defnyddio enw'ch cwmni chi, sef gemaugems.com. Roedd ffrindiau i fi wedi sôn am y wefan yma, er eu bod nhw heb brynu unrhyw beth oddi yno eu hunain.

Roeddwn i'n hapus iawn gyda'r watsh i ddechrau. Mae'n edrych yn union fel y watshys mae'ch siopau a'ch catalogau chi'n eu gwerthu – ond ei bod yn hanner y pris.

Ar ôl tua phythefnos, sylwais i fod y watsh yn arafu – roedd yn colli deg munud bod dydd. Erbyn hyn, mae'n colli awr bob dydd.

Cysylltais i â'r cwmni drwy anfon neges i'r wefan. Ches i ddim ateb. Ar ôl dau ddiwrnod, anfonais i neges arall. Dim ateb eto.

Felly, penderfynais i fynd i mewn i'r siop GemauGems yng Nghaerdydd i gwyno ac i ofyn am naill ai watsh arall neu ad-daliad. Yn anffodus, nid oedd y staff yno'n gallu fy helpu i o gwbl gan nad oeddwn i wedi prynu'r watsh o'ch cwmni chi. Roeddwn i'n rhyfeddu'n fawr at hyn ac eglurais fy mod i wedi prynu'r watsh o'r we. Rhoddais i fanylion y wefan iddynt.

Daeth y rheolwr wedyn i egluro nad yw'r wefan roeddwn i wedi prynu oddi wrthi yn perthyn i'ch cwmni chi, er ei bod yn defnyddio enw'ch cwmni chi. Dywedodd fod cwmni ffug yn y Dwyrain Pell yn defnyddio enw'ch cwmni chi i werthu gemwaith sy'n edrych yr un mor hardd â'ch gemwaith chi. Dangosodd enghreifftiau eraill i fi – breichled oedd yn edrych yn union fel y breichledi oedd yn y siop yng Nghaerdydd, ond bod yr 'arian' yn ffug, a chadwyni 'aur' oedd wedi eu gwneud o fetel rhad. Gofynnodd i mi sut roedd y watsh wedi cael ei becynnu ar gyfer ei bostio. Atebais drwy ddweud ei fod wedi dod mewn bocs du a melyn gyda logo'ch cwmni chi arno. Eglurodd mai bocsys glas a melyn mae'ch cwmni chi'n eu defnyddio bob amser. Eglurodd hefyd nad yw'ch cwmni chi byth yn cynnig 'bargeinion' ar y we ac felly mae'n amlwg fy mod i wedi prynu watsh 'ffug'.

Rwy'n siomedig iawn, fel y gallwch ddychmygu. Rwyf wedi gwario £50 ar watsh sydd ddim yn gweithio ac mae rhywun wedi fy nhwyllo i. Yn waeth na hyn, mae'r cwmni yma'n dal i dwyllo pobl heddiw – pobl sy'n meddwl eu bod nhw'n prynu o'ch gwefan chi ond sydd, mewn gwirionedd, yn prynu o wefan lladron!

Oes unrhyw beth y galla i ei wneud?

Gan edrych ymlaen at glywed oddi wrthych.

Sam Smith